HI, WE'RE KNIGHTS BROWN

Hello, and thank you for bearing with us while work carries on at Castle Square Gardens. We know a live construction site on your doorstep can raise a few questions, so we wanted to share where things stand, what's coming next, and what you might notice around the square over the months ahead.

WHAT'S BEEN HAPPENING

Since work began, we've been busy getting the site ready for the two new pavilion buildings that will sit at the heart of the new gardens.

We started by clearing the ground, carefully removing the old walls, planters, steps, fountain and the previous AV screen, and then making everything safe with new fencing and site cabins. Before any digging started, we ran a series of surveys to check what lay beneath the surface, looking for buried services, historic finds and unexploded ordnance, and we diverted the existing water and electricity supplies out of the way.

Bulk excavation got under way in May. Given the history of the site, this meant careful planning around the possible presence of contaminated land, unexploded ordnance and archaeological finds, with teams on hand throughout to manage those risks. Through June we carried out soil and load-bearing tests to confirm the ground was suitable to build on, and from July we began the concrete foundation and floor slab works for both pavilions. The first parts of the drainage system have now gone in across the square too.

WHAT TO EXPECT
IN THE COMING MONTHS

The site will start to take shape. Through autumn and into winter, the steel and concrete structural frames for both pavilions will go up. Alongside this, there'll be extensive underground work across the whole site, covering drainage, water and electricity, including a large underground water storage tank and the connections for the new water fountain feature.

From around December, we'll begin weatherproofing the buildings, with roofs, windows and external cladding going on. That cladding includes a distinctive copper-effect facade, which we think will look rather special once it's up. Towards the end of this period, internal fit-out will start inside Pavilion B, covering walls, electrics, plumbing and flooring. Early in 2027 the first hard landscaping will begin, with paving and stonework preparation, along with the first planters and steps.

WHAT YOU MIGHT NOTICE LOCALLY

A few practical things to be aware of. You can expect the occasional large vehicle delivery, and cranes will be on site during the main structural work. There will be some increase in noise at times, particularly during concrete pours, steel erection and excavation, though this will stay within normal working hours. Construction and groundworks traffic will access the site through the gates at the Caer Street roundabout and on the opposite corner on Castle Bailey Street. Site hoarding will remain in place throughout, so pedestrian routes around the square will stay much as they are now.

We're grateful for your patience while all of this is going on, and we're always happy to hear from you. If you have any questions or concerns, please do get in touch and we'll be glad to help.



GET IN TOUCH

Our team is always on hand to help. If you have a question, a concern, or simply want to find out more, please do not hesitate to contact us.

Email: castlesquare@knightsbrown.co.uk
Phone: 07818 432183

Or scan the QR code on our noticeboard to visit the project FAQ page, where you will find lots of useful information about the scheme.











Images © Swansea Council /ACME

HELO, KNIGHTS BROWN YDYN NI

Helo, a diolch am eich amynedd wrth i'r gwaith barhau yng Ngerddi Sgwâr y Castell. Rydyn ni'n gwybod y gall safle adeiladu byw ar garreg eich drws godi ambell gwestiwn, felly roedden ni am rannu ble rydyn ni arni, beth sydd i ddod nesaf, a beth y gallech chi sylwi arno o gwmpas y sgwâr dros y misoedd i ddod.

BETH SYDD WEDI BOD YN DIGWYDD

Ers i'r gwaith ddechrau, rydyn ni wedi bod yn brysur yn paratoi'r safle ar gyfer y ddau adeilad pafiliwn newydd a fydd yn eistedd yng nghalon y gerddi newydd.

Dechreuon ni drwy glirio'r tir, gan dynnu'r hen waliau, blychau plannu, grisiau, ffynnon a'r sgrin clyweled flaenorol yn ofalus, ac yna gwneud popeth yn ddiogel gyda ffensys newydd a chabanau safle. Cyn i unrhyw gloddio ddechrau, cynhalion ni gyfres o arolygon i wirio beth oedd o dan yr wyneb, gan chwilio am wasanaethau claddedig, darganfyddiadau hanesyddol ac arfau heb ffrwydro, a dargyfeirion ni'r cyflenwadau dŵr a thrydan presennol o'r ffordd.

Dechreuodd y cloddio swmp ym mis Mai. O ystyried hanes y safle, roedd hyn yn golygu cynllunio gofalus ynghylch presenoldeb posibl tir halogedig, arfau heb ffrwydro a darganfyddiadau archaeolegol, gyda thimau wrth law drwy gydol y gwaith i reoli'r risgiau hynny. Drwy fis Mehefin, cynhalion ni brofion pridd a phrofion dygnwch llwyth i gadarnhau bod y tir yn addas i adeiladu arno, ac o fis Gorffennaf ymlaen dechreuon ni'r gwaith sylfeini concrit a slabiau llawr ar gyfer y ddau bafiliwn. Mae rhannau cyntaf y system ddraenio bellach wedi'u gosod ar draws y sgwâr hefyd.

BETH I'W DDISGWYL
YN Y MISOEDD I DDOD

Bydd y safle'n dechrau siapio. Drwy'r hydref ac i mewn i'r gaeaf, bydd y fframiau strwythurol dur a choncrit ar gyfer y ddau bafiliwn yn cael eu codi. Ochr yn ochr â hyn, bydd gwaith tanddaearol helaeth ar draws y safle cyfan, gan gynnwys draenio, dŵr a thrydan, ynghyd â thanc storio dŵr tanddaearol mawr a'r cysylltiadau ar gyfer nodwedd ffynnon ddŵr newydd.

O tua mis Rhagfyr, byddwn ni'n dechrau diddosi'r adeiladau, gyda thoeau, ffenestri a chladin allanol yn cael eu gosod. Mae'r cladin hwnnw'n cynnwys ffasâd unigryw ag effaith gopr, ac rydyn ni'n meddwl y bydd yn edrych yn arbennig iawn unwaith y bydd yn ei le. Tuag at ddiwedd y cyfnod hwn, bydd gwaith ffitio mewnol yn dechrau y tu mewn i Bafiliwn B, gan gynnwys waliau, gwaith trydanol, plymio a lloriau. Yn gynnar yn 2027, bydd y gwaith tirlunio caled cyntaf yn dechrau, gyda pharatoi palmantu a gwaith carreg, ynghyd â'r blychau plannu a'r grisiau cyntaf.

BETH Y GALLECH CHI SYLWI
ARNO'N LLEOL

Ychydig o bethau ymarferol i fod yn ymwybodol ohonynt. Gallwch ddisgwyl ambell ddanfoniad cerbyd mawr o bryd i'w gilydd, a bydd craeniau ar y safle yn ystod y prif waith strwythurol. Bydd rhywfaint o gynnydd mewn sŵn ar adegau, yn enwedig yn ystod arllwys concrit, codi dur a chloddio, er y bydd hyn yn aros o fewn oriau gwaith arferol. Bydd traffig adeiladu a gwaith daear yn cyrraedd y safle drwy'r gatiau wrth gylchfan Stryd y Gaer ac ar y gornel gyferbyn ar Stryd Beili'r Castell. Bydd yr hordin safle yn aros yn ei le drwy gydol y cyfnod, felly bydd llwybrau cerddwyr o gwmpas y sgwâr yn aros yn debyg iawn i'r hyn ydyn nhw nawr.

Rydyn ni'n ddiolchgar am eich amynedd wrth i hyn i gyd fynd yn ei flaen, ac rydyn ni bob amser yn falch o glywed gennych. Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau neu bryderon, cysylltwch â ni a byddwn yn falch o helpu.



CYSYLLTWCH Â NI

Mae ein tîm bob amser wrth law i helpu. Os oes gennych gwestiwn neu bryder, neu os ydych chi am gael gwybod mwy, mae croeso i chi gysylltu â ni.

E-bost: castlesquare@knightsbrown.co.uk
Ffôn: 07818 432183

Neu sganiwch y cod QR ar ein hysbysfwrdd i ymweld â thudalen Cwestiynau Cyffredin y prosiect, lle cewch lawer o wybodaeth ddefnyddiol am y cynllun.











Images © Swansea Council /ACME